

# Methiant Prifysgolion Cymru

Richard Wyn Jones

**Darlith yr Eisteddfod Genedlaethol  
Casnewydd 2004**

£5.00

ISBN 1 871726 32 8

i

## Methiant Prifysgolion Cymru

### Yr Awdur



Mae Richard Wyn Jones yn Uwch-ddarlithydd yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ef yw Cyfarwyddwr Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru a chyd-gyfarwyddwr y ganolfan newydd a sefydlwyd yn ddiweddar o fewn yr adran, Cymru mewn Ewrop Ranbarthol (CymER)

## Cyflwyniad

**H**awdd iawn yw suddo i freichiau cyfarwydd a chysurlon y fersiwn ddyrchafol honno o hanes Cymru sy'n mawrygu rôl ein prifysgol genedlaethol yn ein hymdaith o ethnïe i genedl go iawn. Wedi'r cwbl, onid yw rhan bwysig y Brifysgol yn y broses o godi cenedl yn ernes o'n gwareiddiad sylfaenol? Tra bod cenhedloedd llai goleuedig yn dyrchafu brwydrau neu ryfeloedd fel symbolau o'u cenedligrwydd, rydym ni'n gallu ymffrostio yn y rhan a chwaraeodd 'ceiniogau'r werin' yn sefydlu cyfundrefn addysg uwch genedlaethol. Gwyn ein byd.

Hawdd iawn hefyd yw ymsuddo i'r consensws hwnnw sy'n mynnu bod ein sefydliadau addysg uwch presennol yn gwneud joban go lew ohoni o dan yr amgylchiadau. Wrth reswm, mae gan arweinwyr y sefydliadau eu hunain ddiddordeb go fawr yn ein darbwyllo mai fel yna mae hi. Ond y gwir amdani yw mai dyma farn y mwyafrif o wleidyddion y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad. Wedi'r cyfan, er gwaetha'r rethreg, ni welwyd dim amgen yn deillio o'r gwahanol adroddiadau a phapurau polisi a welodd olau dydd mewn blynyddoedd diweddar na chynnig arian mân (yn nhermau'r gyllideb addysg uwch) i annog rhai newidiadau strwythurol yn y sector addysg uwch. Yn briodol iawn yn yr oes sydd ohoni, 'make over' a argymhellwyd gan 'Ymgeisio yn Uwch' (<http://www.hew.ac.uk/wnews.html>) gyda Jane Davidson megis rhyw Trinny a Susannah yn argymhell steil gwallt mwy cyfoes yn hytrach na newid mwy sylfaenol. Er fod y sefydliadau wedi profi'n gyndyn i ddilyn ei chyfarwyddyd hyd yma (a hynny am resymau da i'm tyb i) diau y caiff ei ffordd gyda hyn.

Fel y bydd y teitl eisoes wedi ei awgrymu, golwg go wahanol ar bethau a gynigir gan y ddarlith hon. Fy nadl i yw fod y gyfundrefn addysg uwch sy'n bodoli yng Nghymru yn gwneud anghymwynas aruthrol â phobl Cymru; ei bod ar sawl ystyr sylfaenol yn methu.

Mae'n siŵr gen i na fydd y rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â'r wasg Gymraeg yn synnu clywed dadl o'r fath o'm genau i mewn perthynas ag addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Bydd gen i ryw faint mwy i'w ddweud am fethiant amlwg ac anwadadwy ein prifysgolion mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg yn y man. Ond mae byrdwn fy neges heddiw yn ehangach nag addysg cyfrwng Cymraeg yn unig. Rwyf am geisio awgrymu mai dim ond un agwedd ar fethiant llawer ehangach yw methiant prifysgolion Cymru i

## Methiant Prifysgolion Cymru

gymryd addysg cyfrwng Cymraeg o ddirif: nid yw prifysgolion Cymru yn cymryd Cymru o ddirif. Gwelir hyn ar ei amlycaf ym meysydd ymchwil a dysgu.

O fwrw golwg ar gynnyrch ymchwil prifysgolion Cymru, yr hyn sy'n taro dyn yw cyn lleied o waith ar Gymru sy'n digwydd oddi mewn i'n sefydliadau addysg. O ganlyniad, mae'n gwybodaeth ynglŷn ag agweddau lu ar fywyd y Gymru gyfoes yn druenus o annigonol. Mae hyn yn ei dro yn llyffethair ar y dasg o greu polisiau a all fynd i'r afael yn llwyddiannus â phroblemau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol dyrys ein gwlad.

Y dystiolaeth fwyaf damniol y gellir ei gyflwyno yn erbyn ein prifysgolion, fodd bynnag, yw'r ffigyrau ynglŷn â'r niferoedd o bobl ifanc dawnus a thalentog o Gymru sy'n tyrru dros y ffin i astudio ym mhrifysgolion Lloegr. Gwyddom nad oes dychwelyd i lawer ohonynt; *brain drain* na all gwlad fechan dlawd ei fforddio ond eto, *brain drain* nad yw ein sefydliadau addysg uwch na llywodraeth y Cynulliad fel petaent yn ei ystyried yn broblem.

Bwriadaf sôn yn gyntaf am sefyllfa benodol dysgu cyfrwng Cymraeg cyn symud ymlaen at y cwestiynau ehangach (ar un ystyr) ynglŷn ag ymchwil a dysgu. Cyn gwneud hynny fodd bynnag, carwn wneud tri sylw byr arall megis rhagarweiniad.

Yn gyntaf, rhaid cydnabod yn syth fod yna elfen unllygeidiog, fel petai, yn y canlynol. Neu mewn geiriau eraill, ni fyddaf yn dweud llawer am y pethau hynny yn record ein sefydliadau addysg uwch sydd yn haeddu canmoliaeth. Fe fydd rhai yn ystyried hynny'n wendid mae'n siŵr. Fel un sydd wedi treulio blynyddoedd lawer yn gwrandao ar Is-gangellorion a Llywyddion yn canmol yr elfennau positif hyn i'r entrychion tra'n ceisio anwybyddu'r holl ffactorau eraill yr wyf am eu trafod heddiw, teimlaf y gellir cyfiawnhau fy ffocws petai ond yn enw cydbwysedd. Ond bid a fo am hynny, y gwir amdani yw bod amser a gofod yn brin mewn darlith o'r fath yma, a theimlais ei bod yn briodol ceisio dweud y pethau hynny sydd angen eu dweud hyd yn oed os mai canlyniad hynny yw tynnu blewyn o ambell i drwyn go rymus.

Yn ail, gan fod yna dueddiad i fychanu'r math o ddadleuon rwyf am eu cyflwyno heddiw trwy eu camddeall neu eu gorliwio'n fwrriadol, gadewch i mi ei gwneud hi'n gwbl eglur beth nad wyf yn ei ddadlau. Pan ddywedaf fod angen i gyfundrefn addysg uwch Cymru roi mwy o sylw i anghenion Cymru, nid wyf yn honni am eiliad mae dyma'r unig beth y dylid rhoddi sylw iddo.

## Methiant Prifysgolion Cymru

Nid yw dadlau bod angen mwy o waith ymchwil ar Gymru yn Mhrifysgolion Cymru yn gyfystyr â dweud mai Cymru yw'r unig destun ymchwil dilys. Nid yw dweud bod angen gwneud llawer iawn mwy o ymdrech i sicrhau bod canran llawer uwch o bobl ifanc Cymru yn aros yng Nghymru ar gyfer eu haddysg uwch yn gyfystyr â dweud na ddylid croesawu myfyrwyr o rannau eraill o ynysoedd Prydain a'r byd i Gymru. Nid wyf am ddadlau chwaith y dylid mynnu fod pob person o Gymru yn aros yng Nghymru ar gyfer eu haddysg uwch. Yn hytrach, mater o gydbwysedd yw hyn oll. Mwy o sylw i Gymru ym maes ymchwil, nid y cyfan. Mwy o bobl ifanc o Gymru yn astudio yng Mhrifysgolion Cymru, nid pawb yn ddiwahân, nag ar draul pawb arall.

Mae unrhyw gyfundrefn addysg uwch genedlaethol gwerth ei halen yn rhoddi sylw priodol i anghenion y genedl sy'n ei chynnal ochr yn ochr â'r materion a'r gwerthoedd hynny sy'n gyffredin i ddysg ymhob man. Dengys y dystiolaeth a gesglir at ei gilydd yn y ddarlith hon mai nid dyma a ddigwydd yng Nghymru – o bell, bell ffordd.

Yn drydydd, fe ellid – yn wir fe ddylid – gofyn pa awdurdod sydd gennyf i fod yn doethinebu ynglŷn â'r cyfryw bynciau hyn. Y gwir amdani yw hyn: arbenigwr ar wleidyddiaeth ydw i, nid ar addysg uwch fel y cyfryw. Ysyaeth, ychydig iawn, iawn o waith ymchwil a wneir gan unrhyw un ar addysg uwch yng Nghymru – yn wir, dyma un o symptomau lu yr union aflwydd yr wyf yn ceisio tynnu sylw ato yn y ddarlith. Oblegid hynny, teimlaf ei bod yn briodol i mi fentro i'r maes. Petai cymuned ddeallusol yn trafod y materion hyn yng Nghymru, fyddwn i ddim yn meiddio gwneud – fyddai dim angen i mi wneud. Ond nid felly y mae.

Wrth fentro i'r maes, rwy'n dra ymwybodol fy mod yn gwneud hynny yng nghwmni nifer o ragdybiaethau y bydd llawer yn eu hystyried yn hen ffasiwn drybeilig; gwell eu hegluro cyn cychwyn fel bod y gynulleidfa yn gallu eu pwysu a'u mesur.

- Yr hyn sy'n diffinio addysg brifysgol, i'm tyb i, yw cysylltiad rhwng ymchwil a dysgu. Nod prifysgolion yw caniatáu i fyfyrwyr ddysgu yng nghwmni'r sawl sy'n arbenigwyr yn eu maes, a'r arbenigedd hwnnw'n ganlyniad gwaith ymchwil gan y darlithwyr eu hunain. Wrth gwrs, mewn realiti, mae pethau'n fwy cymhleth. Ond a derbyn y cymhlethdod, ymchwil yw carreg sylfaen prifysgolion; heb y garreg sylfaen honno, waeth pa mor gywrain yr adeiladwaith a'r adeiladau, a waeth pa mor gredadwy y labeli a osodir arnynt hwy a'r bobl sy'n gweithio ynddynt, ni ellir sôn mewn difrif am fodolaeth prifysgol.

## Methiant Prifysgolion Cymru

- Yn dilyn o hyn, ystyriaf benderfyniad y Ceidwadwyr i ddileu'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a elwir bellach 'Yr Hen Brifysgolion' a gweddill y sector addysg uwch nôl yn 1992 fel cam gwag. Un o'r problemau sydd wedi deillio o hyn yw ei fod wedi gosod y sefydliadau a'r staff hynny a daflwyd yn ddisymwrth i ddyfroedd dyfnion y prifysgolion go iawn mewn sefyllfa amhosibl. Maent bellach yn syrthio rhwng dwy stôl – yn gorfod ceisio dal eu tir yn erbyn y prifysgolion 'hŷn' heb fod ganddynt y proffil staff na'r adnoddau i geisio gwneud hynny, a hynny mewn cyfnod pan fo'r prifysgolion hên wrthi fel lladd nadroedd yn ehangu. Yn y pen draw mae hyn yn gosod sefydliadau megis Athrofeydd Abertawe a Wrecsam, a Choleg y Drindod yng Nghaerfyrddin mewn sefyllfa gwbl anghynladwy.
- Mae fy mhwynt nesaf yn dilyn yn uniongyrchol o hyn: cyn 1992 roedd hi'n bosibl dadlau yn weddol gredadwy bod gradd o unrhyw un o brifysgolion y Deyrnas Gyfunol yn dynodi lefel go debyg o gyrhaeddiad deallusol. Bellach, fodd bynnag, ni pherthyn unrhyw hygredded i'r ddadl honno. Yn y gyfundrefn sydd ohoni, nid gradd yw gradd yw gradd. Mae amharodrwydd i gydnabod y ffaith hon yn anghymwynas mawr â'n myfyrwyr. Mae hefyd yn arwain at bolisiau hurt, megis ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i orfodi 'ail-gyflunio'.
- Wrth ddadansoddi'r hyn sy'n digwydd ym mhrifysgolion a sefydliadau addysg uwch Cymru credaf mai'r hyn sydd bwysicaf yw'r hyn sy'n cael ei wneud yn hytrach na'r hyn sy'n cael ei ddweud. Gwn fod hyn yn safbwynt sy'n ymylu ar y cableddus yn yr oes sydd ohoni, ond fel yna y mae hi.
- Yn gysylltiedig â hyn, rwyf hefyd yn ddigon o hen Farxydd i gredu mai diwedd y gân yw'r geiniog, a bod yn rhaid i faterion cyllidol fod wrth wraidd unrhyw ddadansoddiad o'r presennol, ac unrhyw gynllun ar gyfer y dyfodol. Ysywaeth, hyd yma beth bynnag, mae'r gwleidyddion hynny yng Nghaerdydd sydd wedi ceisio mynd i'r afael â'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru wedi tueddu i anghofio hyn.

## Y Gymraeg

Fe garwn ddechrau trwy gyfeirio at bedair swydd, neu, a bod yn fanwl, pedwar swydd ddisgrifiad, y cyfan ohonynt yn fy sefydliad i, sef Prifysgol Cymru Aberystwyth. O'u hystyried ochr yn ochr â'i gilydd, maent yn amlygu'r anghysondeb batholegol sy'n nodweddu agwedd Aberystwyth at y Gymraeg, a realiti sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg uwch yn fwy cyffredinol.

## Methiant Prifysgolion Cymru

Fel y gwyddys, bu Aberystwyth wrthi'n apwyntio Prifathro ac Is-ganghellor newydd yn ddiweddar. Roedd y swydd ddisgrifiad ar gyfer y barchus arswydus swydd yn crybwyll y gallu i gyfathrebu yn rhugl trwy'r Gymraeg fel Cymhwyster Angenrheidiol. Ac yn sgil apwyntiad mewnol o Gymro Cymraeg i'r swydd honno, aethpwyd ati i apwyntio Cofrestrydd newydd. Unwaith yn rhagor fe wnaed y Gymraeg yn Gymhwyster Angenrheidiol ar gyfer y swydd honno hefyd. Byddai rhai yn Aberystwyth am i ni gredu fod hyn yn ernes o ymrwymiad dwfn y sefydliad i'r iaith Gymraeg ac i un o gonglfeini ei chenhadaeth sefydliadol, sef i hybu diwylliant Cymraeg Cymru. Ac yn ddi-os, bu cryn frwydr i sicrhau bod y Gymraeg wedi ei chrybwyll yn y fath fodd yn y swydd ddisgrifiad gyda charfan go helaeth o Benaethiaid Adran, yn ôl a ddeallaf, yn gwrthwynebu'n chwyrn.

Yr oedd is-destun trefedigaethol a digon dianrhydedd i'w gwrthwynebiad, sef eu tueddiad i hafalu'r Gymraeg â'r eilradd. Diau y cafwyd nifer o Gymry Cymraeg eilradd mewn swyddi o bwys yn sefydliadau addysg uwch Cymru dros y blynyddoedd – Aber yn eu plith. Ond fel y gwelwn yn y man, y gwir amdani yw mai cyffredin iawn y bu perfformiad nifer fawr o adrannau academiaidd y sefydliadau; adrannau sydd wedi eu rheoli gan benaethiaid adran sydd nid yn unig yn ddi-Gymraeg ond sydd yn aml yn wrth Gymraeg. Mae clywed rhai o'm cydweithwyr yn rhyw gil awgrymu (a chil awgrymu a wneir o'm hamgylch i) mai gafaal y Cymry Cymraeg sy'n dal y sefydliad yn ei hól yn atgoffa dyn o'r cymeriadau hanner gwallgof yna yn nofelau Joseph Conrad sy'n beio'r trigolion brodorol am eu methiannau eu hunain. Peth hyll yd hiliaeth o'r fath, boed yn y Congo neu yng Nghymru.

Onid mater hawdd ydyw i ni, garedigion y Gymraeg, amenio a chanmol 'Cymry Da' y sefydliad yn Aberystwyth am eu parodrwydd i wrthwynebu agweddau trefedigaethol a mynnu bod prif swyddogion y Brifysgol yn medru'r Gymraeg? Tybed? Ystyriwch ddau sylw a glywais yn ddiweddar gan ddau academydd hyn na allai unrhyw un fyth eu cyhuddo o fethu a chwifio baner y Gymraeg ar bob achlysur posibl. Mae'r cyntaf yn gweithio yn un o sefydliadau addysg uwch lleiaf Cymraeg Cymru, ond sefydliad sydd wedi tueddu i apwyntio Prifathrawon o Gymry Cymraeg. Roedd ganddo gywilydd dweud, meddai ef, fod ei galon wedi suddo o glywed am apwyntiad arall yn yr un traddodiad. Pam hynny, meddech chi? Oherwydd ei fod yn gwybod bod apwyntio Cymro Cymraeg i'r brif swydd yn debygol iawn o olygu na wneid dim i hybu dysg trwy gyfrwng y Gymraeg oddi mewn i'r sefydliad yn ystod ei deyrnasiad. Byddai'r Brifysgol yn cuddio y tu ôl i bresenoldeb 'Cymro da' wrth y llyw – roedd ymrwymiad y sefydliad i'r iaith wedi ei brofi trwy apwyntio un sy'n medru'r Gymraeg; doedd dim angen gwneud mwy.

## Methiant Prifysgolion Cymru

Mae'r ail sylw yn un a glywais o enau un o Gymreigwyr mwyaf brwd ac uchel ei barch yn Aberystwyth. Roedd yn meddwl weithiau, meddai'n dawel, y gallasai fod yn well i'r Gymraeg yn Aberystwyth petai person di-Gymraeg neu wrth-Gymraeg yn cael ei apwyntio'n Brifathro. O leiaf byddai hynny'n rhoi rhywbeth i ni ymladd yn ei erbyn.

Mae'r rhain yn safbwyntiau pur syfrdanol, yn enwedig felly o enau dau berson o'r fath ansawdd ac ymrwymiad. Maent, fodd bynnag, yn mynegi dwyster y rhwystredigaeth sydd bellach wedi gafael yn llawer ohonom sy'n ceisio dysgu trwy'r Gymraeg oddi mewn i'r gyfundrefn addysg uwch; teimlad o rwystredigaeth sy'n deillio'n uniongyrchol o'r holl ragrith sy'n ein hamgylchynu parthed y Gymraeg. Y gwir plaen amdani yw hyn: er bod digon o gefnogaeth eiriol i addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ac ambell i weithred symbolaidd megis ym maes apwyntiadau ar gyfer rhai swyddi, nid yw'r geiriau na'r gweithredoedd symbolaidd hyn yn esgor ar weithredu ehangach a mwy ystyrlon oddi fewn i'r sefydliadau. Yn wir, mae record Aberystwyth dros y degawd diwethaf yn awgrymu fod arweinwyr y sefydliad hwnnw yn teimlo fod geiriau (gwag) o gefnogaeth i'r Gymraeg yn golygu nad oes yn rhaid iddynt wneud dim yn ymarferol i hybu neu hyd yn oed warchod ei sefyllfa oddi mewn iddo.

Ychydig iawn o reswm a welaf, felly, i ddatlu llwyddiant y 'Cymry Da' yn Aberystwyth yn mynnu bod y Prifathro newydd yn medru'r Gymraeg. Ofnaf, yn hytrach, mai canlyniad eu buddugoliaeth fydd parhad y 'rhagrith sefydliadol' presennol: parhad trefn lle na chymrir addysg Gymraeg o ddirif beth bynnag yr ymrwymiad rhethregol rhad.

Efallai y bydd rhai yn ystyried safbwynt o'r fath yn or-sinicaidd neu hyd yn oed yn haerllug? I'r amheuwyr yn eich plith, fe'ch cyfeiraf at dda swydd ddisgrifiad arall a ddeilliodd o beiriant biwrocraidd Aberystwyth tua'r un adeg â swydd ddisgrifiad y Brifathrawiaeth.

Hyd yn ddiweddar bu meddyg dwyieithog yn gweithredu fel swyddog meddygol Prifysgol Cymru Aberystwyth. Gyda'r cynnydd di-ball yn y niferoedd sy'n astudio mewn prifysgolion, daeth swyddi o'r math yma hyd yn oed yn bwysicach nag y buont yn y gorffennol oblegid bod cynifer yn dioddef yn sgil gwahanol gyflyrau meddygol, llawer ohonynt yn broblemau seicolegol. Mae'r rôl gwmslera a chwaraeir yn arbennig o werthfawr. Ysyaeth, pan ddaeth hi'n amser canfod olynnydd i'r person dwyieithog a fu'n gwasanaethu fel swyddog meddygol nid oedd y Gymraeg yn Gymhwyster Angenrheidiol ar gyfer y swydd ac apwyntiwyd person di-Gymraeg iddi.



## Methiant Prifysgolion Cymru

Fel y gallwch ddechymygu, bu hyn yn destun pryder aruthrol i lawer o staff dysgu cyfrwng Cymraeg y sefydliad. Beth fu ymateb 'Cymry Da' y sefydliad i'r cwynion? Yn ôl un ohonynt, fe wneir trefniadau amgen ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n mynnu cael gwasanaeth trwy'r Gymraeg – mae'r Ysgol Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg yn dal i ddisgwyl i glywed beth yw'r trefniadau hynny. Yn ôl un arall, roedd y meddyg newydd wedi cael profiad helaeth o weithio mewn cyd-destun amlddiwylliannol mewn swydd flaenorol yng nghanol Manceinion ag felly gellir disgwyl iddi fod yn sensitif i'r sefyllfa arbennig sy'n bodoli yn Aberystwyth. Mae'r peth y tu hwnt i barodi. Ond os ydym i gredu mai dyma'r farn swyddogol yn Aberystwyth, teg yw gofyn y cwestiwn canlynol i Lywydd ac uchel-swyddogion eraill Prifysgol Cymru Aberystwyth: ar ba sail rhesymegol y gellir cyfiawnhau gwneud y Gymraeg yn Gymhwyster Angenrheidiol ar gyfer Is-ganghellor a Chofrestrydd Aberystwyth tra'n eithrio'r cymal o swydd ddisgrifiad y Swyddog Meddygol?

Byddai hefyd yn ddiddorol a dadlennol clywed eu barn am ddatblygiad arall yn Aberystwyth sef sefydlu adran academiaidd newydd sbon danlli oddi mewn i'r sefydliad heb yr un copa walltog ymhlith ei staff sy'n medru'r Gymraeg. Sôn yr ydwyf am yr Adran Gwyddor Chwaraeon. Bu cryn ddadlau ynglŷn â'r mater yma yn y wasg a'r cyfryngau gyda'r Athro Derec Llwyd Morgan, yr Is-ganghellor a fu'n gyfrifol am y datblygiad, yn dadlau mai diffyg ymgeiswyr priodol ar gyfer y swyddi newydd yn hytrach na diffyg ewyllys ar ran y sefydliad a olygodd na welwyd staff cyfrwng Cymraeg yn ymuno â'r rhengoedd. Bid a fo am hynny: fe dderbyniwn yr hyn a ddywed am y ceisiadau hyd yn oed os na ellir peidio â'i atgoffa na chrybwyllwyd y Gymraeg yn y swydd ddisgrifiadau ar gyfer y ddwy swydd academiaidd gyntaf i'w hysbysebu yn yr adran. Ond beth am swydd gweinyddydd yr adran? Dyma swydd lle y gellid yn hawdd fod wedi rhoi rhyw wedd Cymraeg ar waith yr adran. Wrth gwrs, byddai'n annigonol ond o leiaf byddai'n arwydd fod awdurdodau Prifysgol Cymru yn deisyf o ddifrif gweld y Gymraeg yn cymryd ei lle ym mywyd yr adran newydd. Ond unwaith eto, nid oedd y Gymraeg yn Gymhwyster Angenrheidiol ar gyfer y swydd honno ac unwaith eto, penodiad di-Gymraeg a gafwyd. Hyn er gwaetha'r ffaith fod ymgeiswyr cymwys sy'n medru'r Gymraeg wedi cynnig eu gwasanaeth ar gyfer y swydd. Afraid atgoffa y rhai yn eich plith sy'n hen gyfarwydd â rhagrith sefydliadol ein prifysgolion parthed y Gymraeg beth yw enw adeilad newydd yr Adran Gwyddor Chwaraeon yn Aberystwyth, ie, Adeilad Carwyn James. "Satire is dead", ys dywedodd Lenny Bruce pan glywodd i bywllgor Nobel ddyfarnu eu gwobr heddwch i Henry Kissinger.

## Methiant Prifysgolion Cymru

Ond rhag i chi feddwl mai Aberystwyth yn unig sydd dan y lach gennyf, gadewch i ni droi at y sefyllfa drwy'r sector addysg uwch yn gyffredinol. Faint o ddysgu cyfrwng Cymraeg sy'n digwydd ym maes addysg uwch? Yn lle? Ym mha bynciau? Beth yw'r tueddiadau presennol o ran ehangu neu leihau'r ddarpariaeth honno? Beth yw'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol? Byddai darparu gorolwg fanwl yn dasg a fyddai'n ein cadw yma lawer iawn yn hwy na'r hyn sy'n weddus mewn achlysur o'r fath. Bodlonaf felly ar gyflwyno rhai o'r ystadegau perthnasol.

**Tabl 1: Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg (CALI)**

Sefydliad	1996/97	1997/98	1998/99	1999/2000	2000/01	2001/02
Aberystwyth	156	197	191	200	202	199
Bangor	503	503	463	442	463	438
Y Drindod	290	256	234	301	310	258
Athrofa Caerdydd	70	67	59	53	69	55
Gweddill	8	16	22	47	126	52
Cyfanswm	1,028	1,038	970	1,044	1,172	1,002

Ffynhonnell: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Mae Tabl 1 wedi ei godi yn uniongyrchol o wefan y Cyngor Cyllido. Mae sawl pwynt yn dod i'r amlwg yn syth. Yn fwyaf amlwg efallai, tri sefydliad sy'n cynnig swmp y ddarpariaeth. Yn wir, rhyngddynt, roedd Bangor, Aber a'r Drindod yn cyfrif am 89 y cant o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn 2001-02. Yn ail, a siarad yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth yn statig. Hynny yw, ni fu cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y 6 mlynedd diwethaf. Â'r darlun hyd yn oed yn fwy digalon o graffu'n fanylach.

- Tra bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn troi yn ei unfan, yn ystod yr un cyfnod fe gynyddodd y nifer o fyfyrwyr yn y gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru tua 13 y cant. Canlyniad hynny yw fod y ganran myfyrwyr mewn addysg uwch yng Nghymru sydd yn derbyn unrhyw ran o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi lleihau ers 1996-97.
- Fe welwch fod y ffigurau yn y Tabl wedi eu mynegi mewn CALLau, sef talfyriad o 'Cyfwerth ag Amser Llawn' – FTE (Full-time Teaching Equivalent) yw'r talfyriad Saesneg mwy cyfarwydd. Gellir gweld pa mor drychinebus o wan yw sefyllfa'r Gymraeg pan sylweddolir bod 1,002 CALI yn cynrychioli tua 1.5 y cant o'r CALLau yn y sector yng Nghymru. Â'r darlun yn fwy tywyll fyth pan sylweddolir fod bron i hanner y dysgu hyn ynglŷn â hyfforddi athrawon.

## Methiant Prifysgolion Cymru

- O geisio cyfieithu CALLau yn hen bres, fel petai, gellir amcangyfrif bod tua 3 y cant o'r myfyrwyr yn y gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru yn derbyn rhyw ran o'u haddysg trwy'r Gymraeg (ac mae hynny'n cynnwys rheini sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc, grŵp na ddylid eu cyfrif yn y ffigyrau hyn mewn gwirionedd).

Daw arwyddocâd hyn oll yn eglur pan ystyrir mai targed Llywodraeth y Cynulliad yw cynyddu'r ganran o holl fyfyrwyr Cymru sy'n derbyn cyfran o'u haddysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg i 7 y cant erbyn 2010. Yn wyneb realiti'r sefyllfa bresennol mae'n nod uchelgeisiol tu hwnt. Petai Llywodraeth y Cynulliad o ddifrif yn ei gylch, yna bydd lle i ni fod lawer iawn yn fwy hyderus am ddyfodol y Gymraeg mewn addysg uwch nag y bŵm yn hyn o gyflwyniad hyd yma – ac yn wir, gallwn fod yn fwy hyderus am ddyfodol y Gymraeg *per se*. Ond y caswir yw fod y targed yn enghraifft arall o'r rhagrith a'r sinigiaeth sy'n amgylchynu'r Gymraeg mewn addysg uwch. Oblegid, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw strategaeth o gwbl gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer cyrchu'r nod.

Yn ystod haf y llynedd, gwrthododd Jane Davidson yr unig gynllun oedd ar y bwrdd, sef cynllun Bwrdd Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru. Roedd y cynllun yn gynnyrch trafodaeth eang oddi mewn i'r sector ac yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o natur y rhwystrau sy'n dal datblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn ei ôl. Roedd o hefyd yn gynllun cymharol rad yng nghyd-destun cyllideb addysg uwch yng Nghymru. Eto'i gyd, fe'i gwrthodwyd yn ddisymwth a heb eglurhad gan y Gweinidog.

Oni bai am ymdrechion arwrol myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, dwi'n amau'n gryf mai dyna fyddai diwedd y stori. Ond oherwydd eu hymdrechion difflino i roi addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn ôl ar yr agenda, teimlodd Davidson reidrwydd i ddychwelyd at y mater. Yn wir, bu hyd yn oed yn ddigon byrbwyll i grybwyll sefydlu Coleg Ffederal – fel 'nod hirdymor' wrth gwrs. Ar hyn o bryd, yr ydym yn disgwyl i bwyllgor arall (eto fyth) i adrodd – y tro hwn wedi ei gadeirio gan y llyfrgellydd cenedlaethol Andrew Green – ac i'r Gweinidog ystyried ei hymateb. Yn y cyfamser, fel y dywedais, nid oes strategaeth o gwbl gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer cyrchu'r nod o 7 y cant. Hyd yn oed rŵan felly, ym mis Awst 2004, gwyddom i sicrwydd na chyrrhaeddir 7 y cant. Yn wir, o ystyried y bydd y ganran o bobl ifanc Cymru sy'n derbyn addysg uwch yn cynyddu ymhellach erbyn diwedd y ddegawd, gallwn fod yn gwbl hyderus y bydd canran y myfyrwyr sy'n derbyn cyfran o'u haddysg trwy'r Gymraeg yn disgyn hyd yn oed yn is na'r lefel presennol.

## Methiant Prifysgolion Cymru

Ychydig iawn sydd fel petaent yn barod i gydnabod pa mor niweidiol yw methiant y sector Addysg Uwch i gymryd y Gymraeg o ddifrif, i'r rhagolygon ar gyfer dyfodol y Gymraeg fel iaith fyw a hyfyw.

Hyd yn oed o ystyried eu rôl fel sefydliadau addysgiadol yn unig, mae prifysgolion yn bwysig odiaeth. Y prifysgolion sy'n tueddu i osod y cywair ar gyfer yr holl fframwaith addysgiadol. Mae'r sgiliau a'r priodoleddau sy'n cael eu hystyried yn bwysig ac yn werthfawr gan brifysgolion yn cael eu mewnloli gan ein hysgolion uwchradd – yn uniongyrchol, drwy'r pwysau i baratoi darpar fyfyrwyr ar gyfer y sefydliadau a'r adrannau gorau ym myd addysg uwch; neu'n anuniongyrchol trwy'r athrawon eu hunain, sef cynnyrch cyrsiau prifysgol. Yn hyn o beth, mae methiant ein prifysgolion i gymryd y Gymraeg o ddifrif yn rhwystr difrifol i ddatblygiad pellach addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'n wybyddus, er enghraifft, bod nifer o ddisgyblion ysgol sydd wedi astudio trwy'r Gymraeg at lefel TGAU yn gyndyn i barhau i astudio trwy'r Gymraeg at Lefel A – yn enwedig yn yr ysgolion hynny sydd wedi methu â magu ethos Cymraeg a Chymreig cryf. Rhaid priodoli llawer o'r cyndynrwydd yma i ganfyddiad y disgyblion hyn (a'i rhieni) na fydd y Gymraeg o werth pellach wedi iddynt ymadael â'r ysgol a symud ymlaen i'r prifysgolion. Hyd yn oed os ydym am anghytuno'n chwyrn â'u penderfyniad, ni ellir gwadu bod eu canfyddiad yn un cwbl resymol yn wyneb y dystiolaeth.

Cofier hefyd mai targed y Blaid Lafur yw sicrhau fod hanner ein pobl ifanc yn cael mynediad i addysg uwch ar ôl ymadael â'r ysgol. Mewn sefyllfa o'r fath, nid rhywbeth sy'n effeithio ar yr 'elit' yn unig yw diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond mater sy'n cael effaith trwy'r trwch fel petai. Ac wrth gwrs, effaith gorfodi siaradwyr Cymraeg i dderbyn y rhan olaf o'u haddysg ffurfiol trwy'r Saesneg yw sicrhau mai ychydig iawn, iawn ohonynt sy'n meddu ar eirfa ddigonol i drafod eu priod feysydd yn y Gymraeg. Un o ganlyniadau amlwg hyn yw cynyddu'r defnydd o fratiaith mewn bywyd beunyddiol. Ond yn fwy cyffredinol, effaith diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion yw cadarnhau statws eilradd yr iaith trwy awgrymu mai'r unig lefydd priodol ar ei chyfer yw'r rhannau llai 'tyngedfennol' o'r gyfundrefn addysg: iaith i blant yw'r Gymraeg; drwy'r Saesneg y mae oedolion yn byw eu bywydau.

Ond, wrth gwrs, mae dylanwad prifysgolion yn ehangach o lawer na'u rôl addysgiadol yn unig. Yn fwyaf amlwg, maent yn cael dylanwad economaidd a chymdeithasol pellgyrhaeddol ar yr ardaloedd o'u hamgylch. Ac oherwydd

## Methiant Prifysgolion Cymru

fod y Gymraeg mor isel ar eu rhestr blaenoriaethau, effaith y tri sefydliad sydd yn ymholni rhoi bri arbennig ar yr iaith yw Seisnigo ardaloedd a arferid eu hystyried yn ardaloedd Cymraeg. Gwelir hyn fwyaf eglur yn fy sefydliad i, sef Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Bu Aberystwyth yn ehangu ers blynyddoedd – ac yn ehangu'n gyflym dros ben mewn blynyddoedd diweddar – fel bod dros 2,000 o efrydwyr yn y flwyddyn gyntaf yn unig eleni. Gwnaethpwyd hynny heb unrhyw ystyriaeth o'r effeithiau ieithyddol, heb sôn am unrhyw ymdrech i'w lliniaru, ac wrth gwrs, bu'r effeithiau hynny'n niweidiol dros ben. Oherwydd fod dwyster y boblogaeth gymaint yn uwch yn yr ardaloedd sy'n gartref iddynt, nid yw effeithiau ieithyddol andwyol Bangor (a Chaerfyrddin i ryw raddau) mor weledol amlwg efallai, ond y maent serch hynny'n ffaith ddiymwad.

Rhaid sylweddoli'n ogystal rôl gynyddol amlwg sefydliadau addysg uwch yn sbarduno twf economaidd trwy eu swyddogaeth hollbwysig yn y rhwydweithiau gwybodaeth sy'n ffurfio'r 'economi newydd'. Ysywaeth, oherwydd bod awyrgylch ac ethos ein sefydliadau addysg uwch mor Saesneg a Seisnig, y tebygrwydd yw na chaiff y Gymraeg ei phriod le mewn datblygiadau o'r fath. Yn fyr, mae addysg uwch yn datblygu'n agwedd fwyfwy pwysig ar fywyd cymdeithas gyfan, ac o'r herwydd, mae diffyg statws y Gymraeg oddi mewn i'r sector yn mynd yn fater o bwys cynyddol. Y gwir plaen amdani yw bod sefyllfa'r Gymraeg yn y prifysgolion yn gwaethygu. Er holl ymdrechion dyrnoid cydwybodol o staff, piso dryw yn y môr fu'r 'llwyddiannau' a gafwyd wrth hybu'r Gymraeg yn y sector. Ac wrth i'r môr hwnnw ehangu'n barhaol, mae'r ychydig bach, bach a lwyddwyd i'w gyflawni yn mynd yn fwyfwy ymylol a dibwys.

## Ymchwil

Y mae tair adran wleidyddiaeth o fewn sefydliadau addysg uwch Cymru, un yn Aberystwyth, un arall yn Abertawe, ac un arall yng Nghaerdydd yn rhan o'r Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd yno. Yn ogystal, hyd yn ddiweddar iawn beth bynnag, bu grŵp yn gweithio yn y maes ym Mhrifysgol Morgannwg. Gyda datganoli ar droed byddai dyn yn tybio fod gwleidyddiaeth Cymru wedi dyfod yn un o gonglfeini gwaith ymchwil yr adrannau hyn. Ysywaeth, nid felly y mae. Yn wir, yn ddiweddar fe'm trawodd fod yna lai ohonom â Chymru'n rhan ganolog o'n gwaith ymchwil rŵan nag yr oedd hyd yn oed ddwy neu dair mlynedd yn ôl – ac roedd y niferoedd yn ddigon prin adeg hynny. Erbyn hyn mae 5 ohonom, lle roedd 8 o'r blaen.

## Methiant Prifysgolion Cymru

Yn sgil y sylweddoliad yma, euthum ati i geisio canfod faint o waith ymchwil ar Gymru a wneir ym Mhrifysgolion a Cholegau Addysg Uwch Cymru. I ba raddau y mae fy maes i'n eithriad? Neu a ydyw'r diffyg truenus o waith ymchwil ym maes gwleidyddiaeth yn gynrychioliadol o ddarlun mwy cyffredinol? Nid gorchwyl hawdd fu darganfod gwybodaeth sicr. Yn y pen draw, fodd bynnag, penderfynais mae'r ffordd orau fyddai edrych ar y cynnyrch a gynigiwyd gan sefydliadau addysg uwch Cymru i sylw'r Asesiad Ymchwil ddiweddaraf.

I'r sawl yn y gynulleidfa nad ydynt yn troi yng nghylchoedd prifysgolion, go brin y bydd 'Yr Asesiad Ymchwil' – yr RAE bondigrybwyll – yn golygu rhyw lawer iawn. Gwyn eich byd! I'r rhai ohonom sydd yn byw a bod yn y byd hwnnw, daeth yr Asesiad Ymchwil i chwarae rhan cwbl ganolog yn ein meddyliau. Ymdrech yw'r Asesiad Ymchwil i ddyfarnu ar safon y gwaith ymchwil a gynhyrchir mewn gwahanol adrannau academiaidd. Yn yr ymarferiad diwethaf, a gynhaliwyd yn 2001, aeth 60 o baneli pwnc ati i ddynodi safon pob adran ar ystod saith hicyn yn ymestyn o 1 i 5\* (sef, 1, 2, 3b, 3a, 4, 5 a 5\*). 1 yw'r sgôr isaf ac mae'n dynodi adran lle ceir nemor ddim gwaith ymchwil o 'safon cenedlaethol' (sef Prydeinig). 5\* yw'r sgôr uchaf sy'n dynodi adran lle mae dros hanner y gwaith ymchwil a gynhyrchir o safon rhyngwladol a'r gweddill yn cyrraedd safon Genedlaethol.

Mae'n anodd gorbwysleisio pa mor bwysig yw sgoriau'r Asesiad Ymchwil i'r prifysgolion a'r sawl sy'n gweithio ynddynt. I'r rhai ohonom sy'n gweithio mewn adrannau llwyddiannus, fe lifa bendithion yn nhermau parch a bri yn sgil ein statws dyrchafedig. Llifa arian mawr i'n sefydliadau yn sgil sgoriau uchel, a hynny'n uniongyrchol yn nhermau arian gan y Cyngor Cyllido ac yn anuniongyrchol yn sgil y ffaith fod myfyrwyr yn gynyddol am astudio mewn adrannau sydd ag enw da am eu gwaith ymchwil. Ar y llaw arall, gall dyfarniadau isel fod yn gwbl drychinebus. Erbyn 2004-05 ni fydd y Cyngor Cyllido'n dyrannu unrhyw arian ymchwil o gwbl i'r adrannau hynny a dderbyniodd sgôr ar y pedwar hicyn isaf, sef 1 i 3a. Ar y cyfan, caiff yr adrannau hyn drafferth i recriwtio hefyd. Mae eu dyfodol yn aml yn y fantol gyda sefydliadau cryfach am y cyntaf i ddwyn eu staff gorau. Er gwell a gwaeth, aeth y byd academiaidd yn fyd hynod gystadleuol a didostur.

Beth bynnag am hynny, mae'r cynnyrch a osodir gerbron yr Asesiad Ymchwil yn cynrychioli'r gwaith gorau ac uchaf ei statws a gaiff ei gynhyrchu gan ymchwilwyr – yn nhyb yr adrannau. Mae'n ffordd dda felly o fesur pyls ein prifysgolion ym maes ymchwil. Ond, wrth gwrs, go brin y

## Methiant Prifysgolion Cymru

byddai'n rhesymol disgwyl i waith mewn adrannau Ffiseg, dyweder, ganolbwyntio ar Gymru. Gellid dweud yr un peth am Eneteg. Felly er mwyn ceisio bod yn deg, canolbwyntiais ar y Gwyddorau Cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn o ddiddordeb arbennig oherwydd fod Llywodraeth y Cynulliad wedi datgan ei bod am lunio polisi ar sail tystiolaeth gadarn ('evidence-led policy making' yw'r term a glywir byth a beunydd). Gan fod y Gwyddorau Cymdeithasol yn tueddu i drafod yr union feysydd hynny sy'n rhan o oruchwyliaeth y Cynulliad, teg yw disgwyl y bydd bodolaeth tystiolaeth ddigonol yn dibynnu ar allu ac awydd y bobl hynny sy'n gweithio yn y Gwyddorau Cymdeithasol o fewn sefydliadau addysg uwch Cymru i gynhyrchu gwaith ymchwil perthnasol.

Mae Tabl 2a yn ymdrech i gloriannu faint o waith ymchwil ar Gymru a gyflwynwyd i sylw'r Asesiad Ymchwil diwethaf. Noder pa mor eang y diffiniwyd y gwyddorau cymdeithasol. Noder hefyd fod yna elfen oddrychol yn y ffigyrau hyn. Ni cheisiwyd darllen pob darn. Yn hytrach, dibynnwyd ar y teitl i gynnig arweiniad i'r cynnwys. Derbyniwyd gwaith cymharol sy'n defnyddio rhyw agwedd neu ran o Gymru fel enghraifft, ac fe'i hystyriwyd fel gwaith sy'n trafod Cymru. Mewn achosion lle'r oedd yn anodd penderfynu y naill ffordd neu'r llall ar gynnwys darn, ceisiwyd bod mor gynhwysol â phosibl. Er pob ymdrech i fod yn decach na theg – trwy ddewis meysydd lle gellid disgwyl gwaith ymchwil sy'n trafod Cymru mewn rhyw fodd, a thrwy fod mor gatholig â phosibl yn y diffiniad o waith sy'n trafod Cymru – gwelir fod y ganran o waith ymchwil sy'n trafod agweddau ar fywyd Cymru yn frawychus o isel. Fe welir o Tabl 2b mai Abertawe sydd 'gryfaf' fel darparwr, ond mai cymharol debyg yw'r Hen Brifysgolion Cymreig (ac eithrio Llambod).

O ystyried y dull cymharol amrwd a ddefnyddiwyd i gasglu'r ffigyrau hyn, teg yw dweud y dylid arfer peth gofal wrth eu dehongli. Ond hyd yn oed pe bawn allan ohoni o 50-100 y cant hyd yn oed – mae'r neges yn ddiymwad. Ac unwaith yn rhagor, o graffu a chrafu dan yr wyneb, gwaeth yr â pethau. Yn ddiweddar, clywsom y bydd Adran Anthropoleg Abertawe yn cau, sef yr unig adran o'i bath yng Nghymru, ac adran sy'n meddu ar record pur dda o gynhyrchu gwaith ar Gymru. Mae pethau'n bell iawn o fod yn iach hyd yn oed ym meysydd Llyfrgellyddiaeth ac Addysg, sef y ddau faes cryfaf o ddigon yn ôl y data. Daeth y deunydd ar Gymru ym maes Llyfrgellyddiaeth i gyd o adran Aberystwyth, adran a dderbyniodd sgôr o 3a ac sydd felly'n colli ei arian ymchwil. O ran yr ymchwil ym maes addysg, dim ond 8 o'r 76 eitem sy'n trafod rhyw agwedd ar addysg yng Nghymru a ddeilliodd o adran

## Methiant Prifysgolion Cymru

a dderbyniodd sgôr o 4 neu well. Mewn geiriau eraill, roedd 90 y cant o'r cynnyrch Cymreig yn deillio o adrannau sydd bellach wedi colli eu harian ymchwil yn gyfan gwbl. Cawn weld beth, os rhyw beth o gwbl, fydd ganddynt i'w gynnig i'r Aseiad Ymchwil nesaf, o ganlyniad.

Gan nad oedd data cyn hyn ynglŷn â faint o ymchwil yn ymwneud â Chymru a gynhyrchir gan y gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru go brin y gofynnwyd erioed i uchel-swyddogion y sefydliadau egluro'r sefyllfa yma. Ond petai dyn am geisio cynnig esgus neu gyfiawnhad ar eu rhan, mae'n debyg mai eu hunig gyfiawnhad posibl fyddai eu bod yn chwarae ar lwyfan

**Tabl 2a: Ymchwil ar Gymru yn y Gwyddorau Cymdeithasol yn Aseiad Ymchwil 2001**

Rhif y panel	Panel	Nifer yr eitemau sy'n ymwneud â Chymru	Nifer o staff a gyflwynwyd i'r panel gan sefydliadau Cymreig	% ymchwil gan sefydliadau Cymreig yn y maes sy'n ymwneud â Chymru <sup>1</sup>
33	Amgylchfyd Adeiledig	4	41.3	2.4
34	Cynllunio Gwlad a Thref	15	35.2	10.6
35	Daearyddiaeth	15	58.5	6.4
36	Y Cyfraith	9	69.1	3.3
37	Anthropoleg	6	9	16.7
38	Economeg	3	16	4.7
39	Gwleidyddiaeth	5	40	3.1
40	Polisi a Gweinyddiaeth Gymdeithasol	38	59.3	16
41	Gwaith Cymdeithasol	2	14.7	3.4
42	Cymdeithaseg	6	33	4.5
43	Astudiaethau Busnes	25	143.4	4.4
65	Astudiaethau Cyfathrebu, Diwylliannol a Chyfrngol	3	16	4.7
68	Addysg	76	77.4	24.6
61	Llyfrgellyddiaeth a Rheolaeth Wybodaeth	23	15.5	37.1
	Cyfanswm	230	628.4	9.2

Ffynhonnell: Aseiad Ymchwil 2001 (<http://www.hero.ac.uk/rae/>)

1) Y ffigyrau yn seiliedig ar y dybiaeth fod pob aelod o staff a aseswyd wedi cyflwyno 4 eitem i'r Aseiad Ymchwil.



## Methiant Prifysgolion Cymru

**Tabl 2b: Gwaith Ymchwil ar Gymru yn y Gwyddorau Cymdeithasol yn ôl Sefydliad 2001**

Sefydliad	Nifer yr eitemau sy'n ymwneud â Chymru	% o'r cyfanswm
Abertawe	68	29.6
Aberystwyth	54	23.5
Caerdydd	45	19.6
Bangor	44	19.1
Morgannwg	15	6.5
Athrofa Abertawe	2	0.9
Athrofa Gog. Ddwy. Cymru	2	0.9
Cyfanswm	230	

sy'n ehangach o dipyn na'r llwyfan Cymreig; y gallai canolbwyntio'n ormodol ar faterion plwyfol Cymreig – allgau cymdeithasol yn y cymoedd, problemau cymdeithasol cefn gwlad, cynllunio ieithyddol, ac ati – eu rhwystro rhag cystadlu ar y llwyfan rhyngwladol. Hynny yw, er nad ydynt efallai'n cynhyrchu llawer o waith ymchwil ar Gymru, maent fodd bynnag yn llwyddo ar eu telerau eu hunain fel sefydliadau addysg uwch Prydeinig.

Ond tybed? Mae Tabl 3 yn dangos perfformiadau prifysgolion Cymru yn Asesiadau Ymchwil 1992, 1996 a 2001. Fe welir fod sgôr prifysgolion Cymru ar gyfartaledd yn uwch na'r cyfartaledd drwy'r Deyrnas Gyfunol. Ond

**Tabl 3: Prifysgolion Cymru a'r Asesiadau Ymchwil**

Sefydliad	Sgôr ar gyfartaledd	Sgôr ar gyfartaledd	Sgôr ar gyfartaledd	Safle 2001 Cymru	Safle 2001 Deyrnas Gyfunol
	1992	1996	2001		
Caerdydd	3.43	5.22	6.11	1	7
Bangor	3.17	4.33	5.18	2	47
Coleg Meddygol	3.36	4.87	5.16	3	48
Llamed	2.69	3.55	5.00	4	54
Aberystwyth	3.24	3.99	4.86	5	56
Abertawe	3.20	4.54	4.77	7	60
Cyfartaledd Prifysgol Cymru	3.18	4.42	5.18		
Morgannwg	2.77	3.69	10	87	
Cyfartaledd Deyrnas Gyfunol	3.61	4.19	5.13		

Prifonellau: Phil Cooke, 'University Snakes and Ladders,' *Agenda* (Gwanwyn 2002), t. 25; Gwefan Prifysgol Caerdydd ([http://www.cf.ac.uk/news/research\\_quality/universities.html](http://www.cf.ac.uk/news/research_quality/universities.html))

## Methiant Prifysgolion Cymru

perfformiad arbennig Caerdydd sydd i gyfrif am hynny'n anad dim. Dim ond Caerdydd, Bangor a'r Coleg Meddygol sydd yn perfformio'n well na'r cyfartaledd Prydeinig gyda Llambled, Aberystwyth, Abertawe a Morgannwg yn perfformio'n is na'r cyfartaledd. Ac unwaith yn rhagor, rhaid tyrchu'n ddyfnach cyn y gellir amlygu'r darlun cyflawn.

Mae Tabl 4, sef dadansoddiad manylach o ganlyniadau Asesiad 2001, yn brawf dramatig o'r gagendor sy'n gwahanu'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Saif Caerdydd ben ac ysgwydd uwchlaw'r lleill bellach o ran maint (staff a aseswyd) ac o ran ansawdd y gwaith ymchwil. Mae'n eglur fod un prifysgol o safon ryngwladol bellach ar dir Cymru, hyd yn oed os oes lle i amau pa mor Gymreig yw ei golygon y tu hwnt i ambell i gilfach a chornel o'r sefydliad. A go brin y bydd yr uniad â'r Coleg Meddygol yn niweidiol i ragolygon Caerdydd a bwrw fod yr uniad yn cael ei wireddu gyda'r un penderfyniad a phroffesiynoldeb a nodweddodd weithredoedd y sefydliad hwnnw mewn blynyddoedd diweddar.

Gydag Asesiad 2001, llwyddodd Bangor i sefydlu ei hun yn yr ail safle yng Nghymru, hyd yn oed os yw canran y staff yno sy'n gweithio mewn adrannau 5 neu 5\* yn sylweddol lai na'r cyfartaledd Prydeinig. Y gamp fydd ceisio gwella'n sylweddol ar y perfformiad yma eto yn Asesiad 2008, ond o leiaf mae'r arwyddion yn obeithiol.

Fel un a dreuliodd ymron i ugain mlynedd yn Aberystwyth, gresyn yw gofod cydnabod bod y stori yn y ddwy Aber dipyn yn llai cadarnhaol. Mae bron i ddwy waith gymaint o staff y sefydliadau hyn yn gweithio mewn adrannau 3a neu lai nag sy'n gweithio mewn adrannau 5 a 5\*. O ystyried goblygiadau ariannol sefyllfa o'r fath, nid yw'n syndod fod y fwyell wedi disgyn yn ddiweddar yn Abertawe, er bod dyn yn gresynu na roddwyd unrhyw ystyriaeth i ganlyniadau'r toriadau i ymchwil ar Gymru. Gyda'r un gwynt, mae dyn yn synnu na welwyd camau mwy egniol yn cael eu cymryd yn Aberystwyth yn wyneb ei pherfformiad siomedig yn Asesiad 2001. Ar hyn o bryd, mae'r ddwy Aber ymhell ar ei hôl hi.

Wedi dweud hynny, mae'r sefyllfa yno'n wych o'i gymharu â'r hyn a geir yn y sefydliadau 'newydd'. Nid oes gofod i sôn amdanynt yn unigol yma – ac mae gwahaniaethau pwysig rhyngddynt. Yr hyn y mae'n rhaid crybwyll, fodd bynnag, yw'r ffaith sobreiddiol ganlynol: 106 o sefydliadau addysg uwch

## Methiant Prifysgolion Cymru

sy'n aelod o'r corff ymbarél Universities UK; sefydliadau o Gymru sy'n 103, 104 a 105 yn y gynghair ymchwil, a hynny er gwaetha'r ffaith mai canran isel iawn o staff a aseswyd yn yr Asesiad Ymchwil diweddaraf.

Dylai Jane Davidson, ac yn wir bob un o blith gwleidyddion Cymru sydd â chyfrifoldeb ym maes addysg uwch, astudio Tabl 4 yn ofalus iawn. Oblegid mae ei ddeall yn golygu deall hefyd pam fod eu polisiau tuag addysg uwch fwy neu lai'n gwbl fethedig. Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad – ac a bod yn deg â hwy, dyma hefyd oedd byrdwn Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn nhymor cyntaf y Cynulliad – yw cadw'r prif fframweithiau cyllidol yn gyson â'r hyn a geir yng ngweddill y Deyrnas

Tabl 4: Cymru ac Asesiad Ymchwil 2001

Sefydliad	Safle yng Nghymru	Safle yn Deyrnas Gyfunol <sup>2</sup>	Staff a aseswyd <sup>3</sup>	% staff a aseswyd gyfartaledd (%)	Sgôr ar gyfartaledd	% staff mewn adrannau 5 neu 3A	% staff mewn adrannau 5* neu 3A
Caerdydd	1	7	710.1	81	6.11	87	1
Bangor	2	47	268.1	75	5.18	31.6	23.5
Coleg Meddygol	3	48	240.6	64	5.16	15.8	–
Llambed	4	54	61	87	5.00	34.4	28.2
Aberystwyth	5	56	301.6	82	4.86	18.2	38.1
Casnewydd	6	57	16	10	4.81	40.6	59.4
Abertawe	7	60	407.4	92	4.77	19.4	39.7
Athrofa Caerdydd	8	67	58	17	4.37	–	39.1
Morgannwg	9	87	161.5	35	3.69	–	72
Athrofa Gog. Ddwy.							
Cymru	10	103	28.9	18	2.76	–	100
Y Drindod	11	104	7.3	10	2.41	–	100
Athrofa Abertawe	12	105	16.8	12	2.35	–	100
Cyfartaledd y Deyrnas							
Gyfunol						55	20.5

Ffynhonnell: Asesiad Ymchwil 2001 (<http://www.hero.ac.uk/rae/>)

2) O blith aelodau Universities UK, sef cyfanswm o 106 corff.

3) Daw'r ffigurau yma o'r adran ganlyniadau ar wefan RAE 2001 (<http://www.hero.ac.uk/rae/>).

## Methiant Prifysgolion Cymru

Gyfunol. Felly dosrennir cyfran o arian i dalu am addysgu myfyrwyr a dosrennir y rhan fwyaf o'r hyn sy'n weddill yn y gyllideb addysg uwch yn ôl fformiwla yn seiliedig ar ganlyniadau yr Asesiad Ymchwil. Rhyngddynt mae'r symiau yma yn cyfrif am y mwyafrif llethol o arian cyhoeddus a warir ar addysg uwch. Bwriad y gwleidyddion, fodd bynnag, yw defnyddio'r arian sy'n weddill i annog y sefydliadau i gydweithredu'n agosach â'i gilydd er mwyn creu 'rhwedweithiau rhagoriaeth', ac yn wir i uno â'i gilydd er mwyn 'ail-lunio tirlun addysg uwch yng Nghymru'.<sup>4</sup>

Chwarae plant yw hyn rwy'n ofni. Gydag elfennau pwysicaf y fframweithiau cyllidol yn gwrthio'r sefydliadau i gyfeiriad cwbl groes – i gystadlu â'i gilydd wrth recriwtio, ac wrth chwarae gêm yr Asesiad Ymchwil – nid oes angen dawn proffwyd i ragweld mai dim ond cydweithio a chydlynu arwynebol a welir oni bai fod yna uniadau amlwg a rhesymegol yn cynnig eu hunain, megis hwnnw rhwng Caerdydd a'r Coleg Meddygol. A beth yn union mae'r gwleidyddion yn gobeithio fyddai canlyniad mwy o gydweithio ac uno?

Un uniad a grybwyllwyd oedd hwnnw rhwng Bangor ag Athrofa'r Gogledd Ddwyrain a phwy a wŷr, efallai mai dyna fydd eu hanes. Ond go brin y bydd uno â sefydliad sy'n 103 ar restr o 106 o gymorth i Fangor wrth iddi geisio dringo'n uwch yn y gynghair ymchwil. Yn yr un modd, beth yn union y byddai uno Caerfyrddin a Llambled yn ei gyflawni pan fo'r naill yn 104 ar yr un rhestr a'r llall yn sefydliad trybeilig o wan hyd yn oed os yw'r gynghair ymchwil yn ei osod uwchlaw'r ddwy Aber? A gellir bod yn gwbl sicr na fyddai uno Abertawe (rhif 60) ac Athrofa Abertawe (rhif 105) yn gwneud dim ond dwysáu problemau'r Brifysgol. Y drwg yn y caws yw fod 'strategaeth' llywodraeth y Cynulliad yn maes addysg uwch yn seiliedig ar y dybiaeth ffaeledig honno fod sefydliadau addysg uwch yn aelodau o'r un rhywogaeth hyd yn oed os yw maint a lliwiau eu hadenydd yn wahanol. Ond fel y gwelir yn Nhabl 4, maent yn anifeiliaid cwbl wahanol. Yn hytrach na phoetsio, chwedl pobl Sir Fôn, hefo strwythurau, yr hyn sydd ei angen yw gweledigaeth gliriach o'r canlyniadau yr ydym am eu gweld yn deillio o'r gyfundrefn. Felly, os derbynir nad oes digon o ymchwil ar Gymru yn deillio o'n prifysgolion rhaid sicrhau fod yr Asesiad Ymchwil, neu gyfundrefn gyllidol amgen, yn annog hynny. Nid oes unrhyw ddirgelwch yn hyn o beth. Yn wir, synnwn i fawr y byddai'r cyllid a gaiff ei wastraffu ar geisio gorfodi priodasau blaen-picwarch rhwng sefydliadau addysg uwch yn ddigon ynddo'i hun, o'i gyplysu mewn rhyw fodd â'r asesiad ymchwil, i roi hwb mawr i ymchwil ar Gymru. Byddai'n sicr yn ddigon i roi hwb aruthrol i addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

4) Jane Davidson bia'r geiriau. Gweler *Y Cofnod* 9 Mehefin 2004.

## Yr Allfudiad Addysgol

Ond os oes un maes yn crisialu anallu Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â'r problemau go iawn sy'n wynebu Cymru ym maes addysg uwch, yna'r methiant i gydnabod hyd a lled, ac effeithiau dinistriol, yr allfudiad addysgiadol yw hwnnw. Prin mai gor-ddweud yw awgrymu bod llawer o broblemau economaidd, cymdeithasol, ac yn wir, diwylliannol ein gwlad yn gysylltiedig â'r ffaith fod canran anarferol o uchel o bobl ifanc Cymru yn symud i Loegr i astudio mewn sefydliadau addysg uwch. Gan fod llawer ohonynt yn troi'n alltudion mwy parhaol, caiff Cymru ei hamddifadu o gyfran sylweddol o'i phobl ifanc mwyaf addysgiadol, egniol a mentrus – yr union arweinwyr 'organaid' hynny, chwedl Gramsci, allai helpu cymunedau trefol a gwledig Cymru i sefyll ar eu traed eu hunain.

Tabl 5: Patrymau Astudio Ymysg Myfyrwyr Addysg Uwch 2001/02

	Yn astudio yn(g)					
	Nghymru	Lloegr	Yr Alban	Ngogledd Iwerddon	Cyfanswm	% yn astudio yn eu mam wlad
<b>Myfyrwyr o</b>						
Gymru	32,302	19,495	501	10	52,308	62
<b>Myfyrwyr o</b>						
Loegr	25,678	802,691	16,583	272	845,224	95
<b>Myfyrwyr o'r</b>						
Alban	282	7,422	96,627	50	104,381	93
<b>Myfyrwyr o Ogledd</b>						
Iwerddon	312	6,552	5,192	27,305	39,361	69

Ffynhonnell: 2001/02 HESA Student Record

Mae'r ystadegau yn Tabl 5 yn wirioneddol drawiadol. Dim ond 62 y cant o fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru; hyn yn cymharu â 93 y cant o fyfyrwyr o'r Alban yn astudio yn yr Alban a 95 y cant o fyfyrwyr o Loegr yn astudio yn Lloegr. Mae effeithiau'r allfudiad addysgiadol yma'n barhaol. Dengys ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol bod 38 y cant o ddynion a anwyd yng Nghymru ond sydd bellach yn byw y tu allan i Gymru yn raddedigion o'i gymharu â 10 y cant o ddynion o Gymru sy'n byw yng Nghymru. Mae 49 y cant o ferched a anwyd yng Nghymru yn dal swyddi

## Methiant Prifysgolion Cymru

proffesiynol neu reolaethol o'i gymharu â 22 y cant o'r rheini sy'n parhau i fyw yng Nghymru.<sup>5</sup> A pheidiwch â thwylo eich hun y bydd y garfan niferus sy'n teithio o Gymru i astudio yn Lloegr a chychwyn gweithio yno wedyn yn dychwelyd i Gymru yn eu tro. Yn hytrach, dengys gwaith ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd bod pobl ifanc o Gymru sy'n astudio yng Nghymru cyn cymryd swyddi y tu allan i'r wlad lawer yn fwy tebygol o ddychwelyd i Gymru yn y pen draw na'r rheini sy'n graddio yn Lloegr.<sup>6</sup>

Ac ni ddylai neb dwyllo eu hunain fod y miloedd sy'n tyrru o Loegr i brifysgolion Cymru yn gwneud yn iawn am yr allfudiad addysgiadol. Wrth gwrs, mae nifer ohonynt yn aros yma ac yn cyfrannu mewn ffyrdd gwerthfawr i fywyd Cymru. Ond carreg lamu tuag at nod amgen yn ôl ar ochr arall i Glawdd Offa yw prifysgolion Cymru i'r mwyafrif llethol ohonynt. A hyd yn oed yn achos y rheini sy'n dewis aros, nid oes ganddyn nhw ran amlaf mo'r un rhwydweithiau a chysylltiadau – mewn gair, yr un cyfoeth o gyfalaf cymdeithasol – ag sy'n perthyn i fyfyrwyr 'brodorol'.

Gwelwyd un arwydd o fydolwg batholegol o wyrddroedig rhannau o'r Plaid Lafur Gymreig pan ddefnyddiodd rhai o'i haelodau yn y Cynulliad y gair 'hiliol' wrth wrthwynebu ymdrechion Plaid Cymru i geisio mynnu fod cael canran uwch o fyfyrwyr o Gymru yn astudio yng Nghymru yn dod yn nod polisi. Go brin fod yna unrhyw lywodraeth mewn unrhyw wlad ddatblygedig arall yn y byd na fyddai'n ystyried y ffigyrau yr wyf newydd eu dyfynnu fel testun pryder aruthrol. Ond nid felly Llywodraeth Cymru, fe ymddengys. Mae Jane Davidson a'i phlaid fel petaent yn gwbl ddi-hid o oblygiadau'r allfudiad addysgiadol. I'm tyb i fodd bynnag, go brin fod unrhyw beth yn gwneud mwy o niwed i ragolygon Cymru. A go brin fod yna unrhyw beth sy'n bwysicach i'n gwleidyddion forol amdano nag annog (nid gorfodi) mwy o bobl ifanc o Gymru i aros yng Nghymru i astudio mewn sefydliadau addysg uwch Gymreig. O gymryd golwg hirdymor ar bethau, byddai llwyddo i droi llif yr allfudiad addysgiadol yn cynrychioli chwyldro yn wir. Yn hytrach na cheisio rhwymo'r clwyfau, byddai Cymru o'r diwedd ym meddiant moddion a allai gynnig gwellhad i'r claf.

5) Focus on Wales: Its People (Office of National Statistics, 2004), p. 7

(<http://www.statistics.gov.uk>)

6) BBC website, 10 February 2004 (<http://news.bbc.co.uk>)

## Gair Olaf

Carwn gloi ar nodyn personol. Gorchwyl tra digalon fu paratoi'r ddarlith hon. Fel un sydd wedi gweithio yn y maes ers dros ddegawd, roeddwn i wedi hen ddeall fod y sefyllfa'n argyfyngus ym maes addysg cyfrwng Cymraeg. Roeddwn hefyd wedi hen synhwyro fod y darlun yn un tywyll ym maes ymchwil ar Gymru a bod yr allfudiad addysgiadol yn broblem sylweddol iawn. Ond rhaid cyfaddef nad oeddwn wedi disgwyl fod pethau cweit cynddrwg ag y maent. Mae casglu'r holl ystadegau hyn ynghyd yn ddigon i dorri calon dyn. Prin fod yna unrhyw lygedyn o obaith i'w weld drwy'r cyfan.

Ond thâl hi ddim anobeithio'n llwyr chwaith. Arferai Saunders Lewis ddychwelyd yn ôl drachefn a thrachefn at Pascal a'i fêt ar fodolaeth Duw. Rywdro tua diwedd y 1980au a dechrau'r 1990au, penderfynodd pobl y wlad hon fetio ar fodolaeth Cymru fel cenedl. Bellach mae gennym lywodraeth Gymreig sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau dybryd y wlad dlawd a styfnig o hunanddinstriol hon. O ystyried pa mor ganolog yw prifysgolion a'r sector addysg uwch yn gyffredinol i gymdeithas gyfoes, ni fydd modd yn y pen draw anwybyddu'r methiannau a dynnais sylw atynt yn y ddarlith hon. A dyna'n cyfle. A mater i bob un ohonom, yn fyfyrwyr, yn gyn-fyfyrwyr, yn ddarpar-fyfyrwyr, yn ddarlithwyr, yn aelodau o Lys, Senedd neu Gyngor, yn drethdalwyr ac yn wleidyddion, yw penderfynu pa ran y byddwn ni'n ei chwarae yn yr ymdrech i ddod â chydbwysedd i'n cyfundrefn addysg uwch trwy ei Chymreigio.

Crybwyllwyd enw Antonio Gramsci eisoes yn y ddarlith hon. Cyfeiria ei hoff arwyddair, wrth gwrs, at yr angen i chwyldroadwyr arfer 'pesimistiaeth y deall ac optimistiaeth yr ewyllys'. Yn y ddarlith hon, ceisiais fy ngorau i gyflwyno darlun di-addurn a di-sbin o realiti addysg uwch yng Nghymru. Mae ei gweld hi a'i dweud hi fel ag y mae yn gam hanfodol yn yr ymdrech hollbwysig honno i chwyldroi prifysgolion Cymru.

